O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif (Cy. )

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("y Prif Reoliadau").

Mae rheoliad 2(2) yn diwygio rheoliad 2 o'r Prif Reoliadau (dehongli) drwy—

- ddiffinio "Awdurdod Iechyd Arbennig" a mewnosod "Awdurdod Iechyd Arbennig" yn y diffiniad o "corff GIG Cymru", fel y bydd y Prif Reoliadau yn gymwys i Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru;
- mewnosod diffiniad o "cynrychiolydd".

Mae rheoliad 2(3) yn diwygio rheoliad 3 o'r Prif Reoliadau (egwyddorion cyffredinol ar gyfer trin ac ymchwilio i bryderon) i'w gwneud yn glir na chaiff cyrff cyfrifol ddarparu data personol i berson nad yw'n destun y data (oni bai bod y person hwnnw yn gynrychiolydd i destun y data).

Mae rheoliad 2(4) yn gwneud diwygiadau technegol i reoliad 12 o'r Prif Reoliadau (personau y caniateir iddynt hysbysu pryderon) i egluro bod rheoliad 12(1)(a) yn gyfeiriad at glaf a bod cyfeiriadau at glaf yn cynnwys cynrychiolydd i'r claf hwnnw.

Mae rheoliad 2(5) yn gwneud diwygiadau i reoliad 14 o'r Prif Reoliadau (materion a phryderon a eithrir rhag eu hystyried o dan y trefniadau)—

- fel y gall cyrff cyfrifol ystyried pryderon ar ôl i ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddod i ben;

- fel bod unrhyw bryder a ddatrysir, erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf, er boddhad i'r person a hysbysodd wedi ei eithrio o weddill y Prif Reoliadau (cyn y diwygiad hwn, nid oedd hyn ond yn gymwys i bryderon a hysbyswyd ar lafar);

- fel bod y cyfeiriad at "achos sifil" yn is-baragraff (ff) yn cynnwys yn benodol y cyfnod cyn gweithredu ar gyfer yr achos hwnnw;

- fel bod cymhwysiad y Prif Reoliadau i Addysg a Gwella Iechyd Cymru ("AaGIC") wedi ei gyfyngu i ddarparu gofal iechyd gan AaGIC.

Mae rheoliad 2(6) yn gwneud diwygiad technegol i reoliad 25 o'r Prif Reoliadau (dyletswydd i ystyried iawn). Mae'r diwygiad yn ei gwneud yn glir na chaniateir gwneud cynnig o iawn ariannol o dan reoliad 25 o'r Prif Reoliadau pan fydd y corff GIG Cymru yn ystyried bod gwerth yr atebolrwydd cymwys yn fwy na £25,000.

Mae rheoliad 2(7) yn dileu rôl Gweinidogion Cymru wrth bennu lefel yr iawndal am boen, dioddefaint a cholled amwynder o dan y Prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif (Cy. )

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 113(2) a (3), a 115 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(**1**), ac adrannau 1(2) a (3), 11, a 12 o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [xx] 2023.

### Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2003 p. 43. Mewnosodwyd adran 113(2)(d) gan adran 10 o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 (p. 01). Diddymwyd adran 113(3)(b) gan adran 95 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14) a pharagraff 45 o Atodlen 5 iddi, a chan adran 166 o'r Ddeddf honno ac Atodlen 15 iddi. Mae diwygiadau eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) 2008 p. 01.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o “corff GIG Cymru”—

(i) hepgorer y “neu” ar ôl paragraff (a);

(ii) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

“neu

(c) Awdurdod Iechyd Arbennig;”;

(b) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“ystyr “Awdurdod Iechyd Arbennig” (“*Special Health Authority*”) yw corff a sefydlwyd gan orchymyn a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf 2006; ond nid yw’n cynnwys unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig trawsffiniol (o fewn yr ystyr a roddir i “cross-border Special Health Authority” yn adran 8A(5) o Ddeddf 2006);

mae i “cynrychiolydd” (“*representative*”) yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 12(2);”.

(3) Yn rheoliad 3—

(a) daw’r ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1);

(b) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder—

“(2) Wrth gydymffurfio â’i rwymedigaethau o dan y Rheoliadau hyn, ni chaiff corff cyfrifol ddatgelu data personol i berson nad yw’n destun y data, oni bai bod y person hwnnw yn gynrychiolydd i destun y data.

(3) Ym mharagraff (2), mae i “testun y data” a “data personol” yr un ystyr â “data subject” a “personal data” yn Neddf Diogelu Data 2018 (gweler adran 3 o’r Ddeddf honno).”

(4) Yn rheoliad 12—

(a) ym mharagraff (1)(a) yn lle “person sy’n cael, neu sydd wedi cael, gwasanaethau gan gorff cyfrifol” rhodder “claf”;

(b) ym mharagraff (9), ar ôl “iawn” mewnosoder “, neu at glaf”.

(5) Yn rheoliad 14(1)—

(a) yn is-baragraff (c), ar ôl “Cymru” mewnosoder “, oni bai bod y corff cyfrifol yn ystyried ei bod yn briodol ystyried y pryder ar ôl i ymchwiliad yr Ombwdsmon ddod i ben;”;

(b) yn is-baragraff (dd) hepgorer y geiriau o’r cyfeiriad cyntaf at “a” hyd at “ac”;

(c) yn is-baragraff (ff), ar ôl “sifil” mewnosoder “(gan gynnwys y cyfnod cyn gweithredu ar gyfer yr achos hwnnw)”;

(d) hepgorer y “neu” ar ôl is-baragraff (ff);

(e) ar ôl is-baragraff (g) mewnosoder—

“; neu

(ng) pan mai Addysg a Gwella Iechyd Cymru yw’r corff cyfrifol, pryder nad

yw’n ymwneud â darparu gofal iechyd gan y corff hwnnw.”

(6) Yn rheoliad 25(2), ar y dechrau mewnosoder “Yn ddarostyngedig i reoliad 29(2),”.

(7) Yn rheoliad 29—

(a) ym mharagraff (4) hepgorer y geiriau o “Caiff” hyd at y diwedd;

(b) hepgorer paragraff (5).

*Enw*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad